**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**—**
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Llywodraeth Cymru

1 Ebrill 2022

Amgueddfa Cymru

Annwyl Dawn,

Ysgrifennaf atoch ynghylch erthygl ddiweddar a gyhoeddwyd yn y Western Mail (5 Mawrth 2022) a oedd yn dwyn y teitl "Wales' national museums body riven by internal dispute".

Roedd y Pwyllgor yn bryderus o ddarllen yr adroddiad am anghydfod rhwng uwch reolwyr a bwrdd ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru. Mae'r erthygl hon hefyd yn cynnwys y pryderon a godwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yng nghyfrifon blynyddol yr Amgueddfa ar gyfer 2020-21.

Mae'r Pwyllgor yn deall bod Adolygiad wedi'i Deilwra o Amgueddfa Cymru yn cael ei gynnal, felly ni fydd y Pwyllgor yn gwneud unrhyw sylw ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau:

- nifer yr adolygiadau mewnol sy'n cael eu cynnal, neu sydd wedi cael eu cynnal, ers mis Ionawr 2020, a phryd y bydd pob un o'r adolygiadau hyn yn cael eu cwblhau a/neu eu cyhoeddi;
- cylch gorchwyl Adolygiad Wedi'i Deilwra Llywodraeth Cymru o Amgueddfa Cymru, y dyddiad cwblhau arfaethedig ar gyfer yr adolygiad hwn, a phryd y caiff yr adroddiad ei gyhoeddi.

Hoffai'r Pwyllgor hefyd ofyn am gopïau o unrhyw adolygiadau mewnol o Amgueddfa Cymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'u cwblhau ers mis Ionawr 2020. Ni fydd y Pwyllgor yn gwneud yr adroddiadau hyn yn gyhoeddus.

O ystyried difrifoldeb y pryderon a amlygwyd yn erthygl y Western Mail a phwysigrwydd rôl Amgueddfa Cymru ym mywyd cyhoeddus Cymru, bydd y Pwyllgor yn cadw llygad ar y mater hwn.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir

Delyth Jewell AS
Cadeirydd

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol Senedd Cymru